

## **PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 14 Chwefror 2001

**Amser:** 9.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### **Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

#### **Eitem Lafar**

Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y datblygiadau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor

### **Eitem 2: Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

**Papur: EOC-02-01(p.1)**

Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal gan dalu sylw arbennig i'w waith yng Nghymru.

### **Eitem 3: Adroddiad Stephen Lawrence: Argymhellion y gweithgor swyddogion.**

**Papur: EOC-02-01(p.2)**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried argymhellion y gweithgor sydd wedi bod yn ystyried sut i weithredu argymhellion Adroddiad MacPherson i lofruddiaeth Stephen Lawrence.

### **Eitem 4: 'Gwerth Gorau' mewn Llywodraeth Leol ac Archwiliad Cydraddoldeb Llywodraeth Leol Cymru.**

**Cyflwyniad: Bethan Evans, Syniad, a Steve Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Bydd Syniad yn rhoi golwg gyffredinol i'r Pwyllgor o'r fenter Gwerth Gorau a bydd yn rhoi gwybodaeth am yr hyfforddiant y mae'n ei ddarparu i gynghorwyr lleol yng Nghymru. Bydd Mr Thomas yn adrodd ar ganfyddiadau archwiliad diweddar awdurdodau lleol Cymru i gydraddoldeb.

### **Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur: EOC-01-01(min)**

Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## **Papur i'w nodi**

Gweithredu'r camau sy'n deillio o'r Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol  
ym Musnes y Cynulliad

EOC-02-01(p.3)